SAFONAU DIWYGIEDIG AR GYFER STATWS CYNORTHWYYDD ADDYSGU LEFEL UWCH YNG NGHYMRU

Rhaid i'r rheini sy'n ennill statws CALU fodloni'r holl safonau canlynol.

Priodoleddau Proffesiynol

1. maent yn disgwyl y gorau gan blant a phobl ifanc ac wedi ymrwymo i'w helpu i gyflawni'u potensial addysgol
2. maent yn sefydlu perthynas deg, barchus, adeiladol a llawn ymddiriedaeth gyda phlant a phobl ifanc
3. maent yn dangos y gwerthoedd, yr agwedd a'r ymddygiad cadarnhaol y meant yn disgwyl eu gweld gan blant a phobl ifanc
4. maent yn cyfathrebu â phlant, pobl ifanc, cydweithwyr, rhieni a gofalwyr mewn modd effeithiol a sensitif
5. maent yn cydnabod ac yn parchu'r cyfraniad y gall rhieni a gofalwyr ei wneud i ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc
6. maent yn dangos ymrwymiad i gydweithredu a gweithio ar y cyd â chydweithwyr
7. maent yn gwella'u gwybodaeth a'u harferion, gan gynnwys ymateb i gyngor ac adborth

Gwybodaeth A Dealltwriaeth Broffesiynol

8. maent yn deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a chynnydd plant a phobl ifanc
9. maent yn gwybod sut i gyfrannu at ddarpariaeth bersonol effeithiol drwy ystyried amrywiaeth yn ymarferol
10. maent yn sicrhau dealltwriaeth ddigonol o'u maes (meysydd) arbenigedd, gan gynnwys dealltwriaeth o egwyddorion y Cwricwlwm Cymreig, i gefnogi datblygiad, dysgu a chynnydd plant a phobl ifanc
11. maent wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig cenedlaethol ar lefel 2 neu'n uwch ar gyfer Saesneg/Cymraeg (iaith gyntaf)/llythrennedd a mathemateg/rhifedd anableddau
12. maent yn gwybod sut i ddefnyddio TGCh i gefnogi'u gweithgareddau proffesiynol
13. maent yn gwybod sut mae fframweithiau statudol ac anstatudol ar gyfer y cwricwlwm ysgolion yn gysylltiedig ag oedran ac ystod gallu'r dysgwyr y meant yn eu cefnogi
14. maent yn deall amcanion, cynnwys a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y gweithgareddau dysgu y maent yn ymwneud â nhw
15. maent yn gwybod sut i gefnogi dysgwyr i ddilyn y cwricwlwm yn ôl â'r cod ymarfer anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r ddeddfwriaeth
16. maent yn gwybod sut mae fframweithiau eraill sy'n cefnogi datblygiad a lles plant a phobl ifanc yn effeithio ar eu gwaith

Sgiliau proffesiynol

Rhaid cynnal gweithgareddau addysgu a dysgu yn unol â chyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro penodedig, ac yn unol â threfniadau a wneir gan bennaeth yr ysgol.

Cynllunio a disgwyliadau

17. maent yn defnyddio'u maes (meysydd) arbenigedd i gyfrannu at waith athrawon o gynllunio a pharatoi gweithgareddau dysgu
18. maent yn defnyddio'u maes (meysydd) arbenigedd i gynllunio'u rôl mewn gweithgareddau dysgu
19. maent yn llunio gweithgareddau sydd wedi'u strwythuro'n glir ac sydd o ddiddordeb i ddysgwyr, gan gymell a datblygu'u dysgu
20. maent yn cynllunio sut byddant yn cefnogi cynnwys y plant a'r bobl ifanc yn y gweithgareddau dysgu
21. maent yn cyfrannu at ddethol a pharatoi adnoddau sy'n addas i ddiddordebau a galluoedd plant a phobl ifanc

Monitro ac asesu

22. maent yn monitro ymateb dysgwyr i weithgareddau ac addasu'r dull gweithredu'n briodol
23. maent yn monitro cynnydd dysgwyr er mwyn cynnig cymorth ac adborth penodol
24. maent yn cefnogi'r gwaith o werthuso cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio ystod o dechnegau asesu
25. maent yn cyfrannu at gadw a dadansoddi cofnodion o gynnydd dysgwyr

Gweithgareddau addysgu a dysgu

26. maent yn cydnabod ac ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n fygythiad i gyfle cyfartal
27. maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol
28. maent yn defnyddio'u sgiliau TGCh i ddatblygu dysgu
29. maent yn datblygu dysgu wrth weithio gydag unigolion
30. maent yn datblygu dysgu wrth weithio gyda grwpiau bach
31. maent yn datblygu dysgu wrth weithio gyda dosbarthiadau cyfan heb bod yr athro penodedig yn bresennol
32. maent yn trefnu ac yn rheoli gweithgareddau dysgu mewn ffyrdd sy'n cadw dysgwyr yn ddiogel
33. maent yn cyfarwyddo gwaith oedolion eraill, lle bo'n briodol, i gefnogi dysgu